
Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio

## Ein cynllun i helpu pobl yng Nghymru

### Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl

Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o'r '**Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio**'.

**Chwefror 2024**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 34**.

Os oes angen cymorth arnoch gyda'ch iechyd meddwl, gallwch ffonio'r **Llinell Gymorth CALL: 0800 132 737.**

Neu am gymorth brys, ffoniwch y **GIG ar 111 a phwyswch 2**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch:

**Gwefan:** www.llyw.cymru/heb-ganfod-y-dudalen

**E-bost:**
mentalhealthandvulnerablegroups@gov.wales

Mae **Hawdd ei Ddeall Cymru** wedi gwneud y ddogfen yma yn fersiwn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

# Cynnwys


**Beth yw pwrpas y cynllun hwn ............ 4**

**Yr hyn rydym ni am ei wneud a sut y byddwn ni'n ei wneud ............ 6**

**Sut rydym ni wedi gwneud y cynllun hwn ............ 9**

**Yr hyn y gwnaethon ni ei ddarganfod ............ 10**

**Sut y byddwn ni'n gwneud y cynllun hwn ............ 21**

**Ein nodau ar gyfer y cynllun hwn ............ 23**

**Sicrhau ein bod ni'n gwneud pethau'n well ............ 33**

**Geiriau anodd ............ 34**

# Beth yw pwrpas y cynllun hwn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ni yw Llywodraeth Cymru.




Mae'r cynllun hwn yn dweud sut rydym eisiau:

- Lleihau nifer y **marwolaethau drwy hunanladdiad**.
- Cefnogi pobl sy'n **hunan-niweidio**.
- Helpu pobl sydd wedi colli rhywun i **hunanladdiad**.

**Hunanladdiad** yw beth rydym yn ei ddweud pan fydd person yn dod â'i fywyd ei hun i ben.

**Hunan-niweidio** yw pan fydd rhywun yn brifo ei hun ar bwrpas.



Mae’n gwneud llawer o bobl yn drist pan:


- mae rhywun yn diweddu ei fywyd ei hun
- neu’n brifo eu hunain yn bwrpasol.




Eu teulu, eu ffrindiau a’r bobl sy’n eu hadnabod.



Rydym eisiau gwybod beth yw eich barn am ein cynllun.





Darllenwch y brif ddogfen hon yn gyntaf. Yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.




Anfonwch y ffurflen ymateb yn ôl atom erbyn **11 Mehefin 2024**.

# Yr hyn rydym am ei wneud a sut y byddwn ni'n ei wneud

## Ein nod




Rydym am atal pobl rhag:

- lladd eu hunain
- a brifo eu hunain.



Rydym hefyd am sicrhau bod pobl yng Nghymru sy'n cael eu heffeithio gan **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** yn:

- Teimlo'n ddiogel ac nad ydynt yn cael eu barnu.
- Cael cymorth pan fyddan nhw ei angen.
- Gallu helpu eraill.



Rydym eisiau helpu pawb i helpu eraill. Nid y rhai sy'n cael eu heffeithio'n unig.



Er enghraifft, rydym am i athrawon ysgol allu helpu plant yn yr ysgol. Cyflogwyr i allu helpu aelodau staff.



Gall pawb ein helpu i gyflawni'r nod hwn. Mae'r cynllun hwn yn dweud sut y byddwn ni'n gwneud hyn.

**Drwy'r cynllun, rydym eisiau:**



- Deall pam mae pobl yn brifo eu hunain. A'r ffyrdd gorau o helpu pobl.



- Gwneud pethau sy'n helpu'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.



- Gwneud yn siŵr bod cymorth ar gael i bawb yn y ffordd maen nhw ei angen.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu gofyn am help heb deimlo'n ddrwg am y peth.



- Gwneud yn siŵr bod y **cyfryngau** yn rhoi'r wybodaeth gywir i bobl. A gallu helpu pobl i ddod o hyd i rywle y gallant ofyn am help.

> Mae'r **cyfryngau** yn golygu gwahanol offer sy'n cael eu defnyddio i roi gwybodaeth i bobl. Er enghraifft, papur newydd, radio, rhyngrwyd.



- Dysgu gan bobl sydd wedi cael **profiad byw** o **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**.

> Mae **profiadau byw** yn golygu pobl sydd wedi bod drwy hunanladdiad neu hunan-niweidio. Neu maen nhw'n adnabod pobl eraill sydd wedi.




- Byddwn yn annog pobl i gefnogi eraill sydd angen help.

# Sut rydym wedi gwneud y cynllun hwn




Fe wnaethom siarad â phobl o bob oed ar draws Cymru. I ddarganfod beth roedden nhw eisiau yn y cynllun.




Rydym wedi seilio nodau'r cynllun ar yr hyn a mae pobl wedi'i ddweud wrthym.



Fe wnaethom hefyd edrych ar ba gyfreithiau a chynlluniau sydd gennym eisoes.




Mae'n rhaid i ni sicrhau y bydd y cynllun hwn yn helpu pobl i atal **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**.

# Yr hyn y gwnaethon ni ei ddarganfod

## Hunanladdiad



Bob blwyddyn am y 10 mlynedd diwethaf, lladdodd tua 330 o bobl eu hunain yng Nghymru.




Mae rhai pobl yn fwy tebygol o ladd eu hunain nag eraill. Rydyn ni'n eu galw'n **grwpiau blaenoriaeth**.

**Blaenoriaethau** yw'r pethau pwysicaf.

**Y grwpiau blaenoriaeth ar gyfer hunanladdiad yw:**

## 1. Dynion yn eu 40au



- Mae dynion yn eu 40au yn lladd eu hunain yn fwy nag unrhyw un arall.



- Mae dynion anabl rhwng 40 a 50 mlwydd oed wedi bod yn wynebu'r risg uchaf o **ladd eu hunain**.

## 2. Pobl sy'n hunan-niweidio neu sydd wedi hunan-niweidio



- Bob blwyddyn mae dros 5,000 o bobl yn mynd i'r ysbyty yng Nghymru oherwydd **hunan-niweidio**.



- Mae pobl sy'n **hunan-niweidio** mewn mwy o berygl o **ladd eu hunain**. Yn enwedig pobl ifanc.

## 3. Pobl sy'n cael cymorth gan wasanaethau iechyd meddwl

Yn ôl astudiaeth a gyhoeddwyd yn 2020:



- Roedd llawer o bobl a fu farw drwy **hunanladdiad** wedi cysylltu â'r gwasanaethau iechyd yn yr wythnos cyn iddyn nhw farw.



- Ond roedd yna hefyd bobl fu farw drwy **hunanladdiadnad** oedd wedi cysylltu â gwasanaethau.

## 4. Pobl sy'n torri'r gyfraith



- Mae risg uchel o **hunanladdiadau** ymhlith pobl sy'n torri'r gyfraith.

## 5. Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau

- Mae **camddefnyddio sylweddau** yn cynyddu'r risg o **hunanladdiad**.

Mae **camddefnyddio sylweddau** yn golygu cymryd cyffuriau neu yfed gormod o alcohol.

## 6. Pobl awtistig



- Mae pobl sydd ag **awtistiaeth** yn cael eu galw'n **awtistig**. Mae pobl awtistig mewn mwy o berygl o **ladd eu hunain**.

**Awtistiaeth** yw'r enw byr sy'n cael ei roi ar amrywiaeth o gyflyrau o'r enw **Anhwylder y Sbectrwm Awtistig**.

Efallai y bydd pobl **awtistig** yn profi anawsterau gyda phethau fel cyfathrebu, bod gyda phobl eraill, neu sut maen nhw'n meddwl am weithgareddau a diddordebau.

## 7. Dioddefwyr cam-drin domestig



- O 2020 i 2022: Roedd tua 1 o bob 4 o bobl wnaeth ladd eu hunain wedi profi **cam-drin domestig**.

> Gall **cam-drin domestig** ddigwydd i unrhyw un. Mae'n cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun sy'n cael ei gyflawni gan bartner, cyn-bartner, ffrind neu aelod o'r teulu.

## 8. Pobl sy'n byw mewn tlodi neu sydd â phryderon ariannol



> **Tlodi** yw pan nad oes gan rywun y pethau pwysig sydd eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.



- Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd tlotach yng Nghymru mewn mwy o berygl o **hunanladdiad**.



- Mae pobl sy'n poeni am arian mewn mwy o berygl o **hunanladdiad**.

**Mae grwpiau risg uchel eraill hefyd ar gyfer hunanladdiad a hunan-niweidio.**

**Mae'r grwpiau risg uchel hyn yn cynnwys:**



- Pobl anabl



- Pobl **niwroamrywiol**

Mae **niwrowahanol** yn golygu pobl ag ymennydd sy'n gweithio mewn ffordd wahanol i eraill. Fel Awtistiaeth ac **Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)**.

Mae **Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd** yn niwrowahaniaeth. Mae'n golygu bod pobl ag ADHD yn meddwl yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl.



- Pobl **LHDTC+**

Mae **LHDTC+** yn golygu grwpiau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Cwiar a grwpiau eraill. Mae'n ymwneud â rhywioldeb a phwy mae pobl yn cael eu denu atynt.



- Teuluoedd **Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Mae pobl **Sipsiwn, Roma, a Theithwyr** yn grwpiau o bobl sydd weithiau'n teithio o le i le.



- **Ceiswyr lloches** a **ffoaduriaid**

Mae **ceisiwr lloches** yn berson sy'n gofyn am gael ei ddosbarthu fel ffoadur yn y wlad newydd maent wedi mynd. Mae'r wlad newydd yn ymchwilio i'w sefyllfa i wneud penderfyniad.

Mae **ffoadur** yn berson sydd wedi gorfod gadael eu gwlad am eu bod mewn perygl yno. Er enghraifft, efallai bod yna ryfel. Neu efallai eu bod yn cael eu bygwth.

**Rydym hefyd yn credu bod grwpiau eraill a fydd mewn perygl. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:**



- Plant a phobl ifanc.



- Merched beichiog a merched sydd newydd gael babi.

- Pobl sy'n cyflawni **cam-drin domestig**.



- Pobl sy'n cael eu **bwlio**.

> **Bwlio** yw pan fydd person neu grŵp o bobl yn trin rhywun arall mewn ffordd wael.

- Pobl sy'n poeni am yr ysgol neu'r coleg.



- Pobl â phroblemau sy'n cael eu hachosi gan henaint.



- Pobl sy'n gweithio neu wedi gweithio i'r lluoedd arfog.



- Pobl a gafodd amser caled neu a oedd mewn sefyllfaoedd anodd pan oeddent yn ifanc.



- Pobl sy'n byw (neu wedi byw) mewn gofal.
- Pobl â phroblemau iechyd corfforol.



- Pobl sy'n gamblo.
- Pobl sy'n unig ac yn ei chael hi'n anodd cwrdd â phobl eraill.



- Pobl sy'n drist oherwydd bod rhywun yn marw. Yn enwedig os bu farw drwy **hunanladdiad**.
- Dioddefwyr **trais ac ymosodiad rhywiol.**



Gall **ymosodiad rhywiol** neu **drais rhywiol** ddigwydd i unrhyw un. Mae'n weithred rhyw sy'n cael ei wneud i rywun pan nad ydyn nhw'n cytuno iddi. Mae yn erbyn y gyfraith.

Mae **trais rhywiol** yn fath o ymosodiad rhywiol.


# Hunan-niwed



- O 2021 i 2022: Roedd llai o bobl mewn ysbytai am **hunan-niweidio**.




- Gallai hyn fod oherwydd na allai pobl gael help mewn ysbytai yn ystod COVID-19.




- Nid yw llawer o bobl sy'n hunan-niweidio yn mynd at wasanaethau. Mae'n anodd casglu'r wybodaeth gywir am **hunan-niweidio**.

**Y grwpiau allweddol ar gyfer hunan-niweidio yw:**

**Plant a phobl ifanc. Merched a menywod ifanc yw'r rhain yn bennaf**



- Mae **hunan-niweidio** mewn merched rhwng 10 a 24 mlwydd oed wedi cynyddu'n fawr.



- Y prif resymau dros **hunan-niweidio** yw bwlio, colli ysgol ac **iechyd meddwl gwael**.



Mae gan bawb **iechyd meddwl**. Iechyd meddwl yw sut mae rhywun yn teimlo yn ei feddwl. Mae'n ymwneud â theimladau, meddyliau a llesiant.



- Mae **hunan-niweidio** mewn plant a phobl ifanc o ardaloedd tlawd yn uchel.



- Ond yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, mae **hunan-niweidio** mewn ardaloedd eraill hefyd wedi cynyddu.

## Grwpiau risg uchel

Mae rhai pobl mewn mwy o berygl o **hunan-niweidio** nag eraill.  Mae hyn yn cynnwys pobl sydd wedi cael eu heffeithio gan bethau fel:

- **Cam-drin ac esgeulustod**



**Cam-drin** yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael.

**Esgeulustod** yw pan nad yw rhywun yn gofalu amdanoch chi'n iawn.

- **Camddefnyddio sylweddau**
- Trais
- **Trais rhywiol**





- Ddim yn mynd i'r ysgol
- **Anhwylderau bwyta** Mae rhain yn broblemau gyda bwyta

Mae **anhwylderau bwyta** yn broblemau bwyta.



- **Problemau iechyd meddwl**
- Torri'r gyfraith
- Cael eich trin yn wael

# Sut y byddwn ni'n gwneud y cynllun hwn




Byddwn ni'n dweud beth fyddwn ni'n ei wneud i gyrraedd ein nodau.



Byddwn ni i gyd yn gweithio gyda'n gilydd i gyrraedd y nodau.



Mae gennym ni fyrddau a grwpiau a fydd yn gweithio gyda'i gilydd:

- i helpu i gyrraedd y nodau
- a gweld sut rydym yn ei wneud.




Byddant yn edrych ar y **Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niweidio** hon.



Byddant yn helpu i feddwl am ffyrdd y gallwn ni gyflawni ein nodau.



Byddant yn delio â phroblemau. A gweld sut mae'r cynllun yn gweithio.


Er enghraifft:



1. **Cyd-Fwrdd Sicrwydd Gweinidogol**
2. **Bwrdd Cenedlaethol Atal Hunanladdiad a Hunan-Niwed**
3. **Grwpiau Partneriaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-Niwed Rhanbarthol**
4. **Grŵp Cynghori Cenedlaethol**

# Ein nodau ar gyfer y cynllun hwn

## Nod 1: Casglu ffeithiau a gwybodaeth am hunanladdiad a hunan-niweidio yng Nghymru. Defnyddio hyn i wneud polisi a chamau gweithredu




Mae gennym ni eisoes lawer o wybodaeth am **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**. Ond mae angen mwy i sicrhau ein bod yn gwneud y pethau cywir.



Mae gwybodaeth dda hefyd yn ein helpu i weld sut rydym gwneud.




Byddwn yn sicrhau y gallwn ni gael gwybodaeth gan wasanaethau fel:

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- Elusennau sy'n helpu pobl â **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**
- Cynghorau
- a grwpiau eraill

**Sut y byddwn ni'n gwneud hyn**




Byddwn ni'n casglu ffeithiau i ddeall:



- Pam mae pobl yn brifo neu'n lladd eu hunain



- Pwy allai fod angen cymorth a chefnogaeth i fod yn ddiogel ac yn iach.



- Beth allwn ni ei wneud i helpu a gwella ein gwasanaethau.




- Beth sy'n bwysig i bobl.

# Nod 2: Gweithio gyda phawb yn y llywodraeth i ddelio â'r rhesymau dros hunanladdiad. Gwneud rhywbeth amdanyn nhw




Mae gennym ni gynlluniau gwahanol yn y llywodraeth. Gall yr holl gynlluniau hyn hefyd helpu i atal **hunanladdiad** a **hunan-niweidio** yng Nghymru.



Rydym eisiau gweithio gyda'n gilydd. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r gwasanaethau cymdeithasol, cynghorau, elusennau a'r cyhoedd.

**Sut y byddwn ni'n gwneud hyn**



Byddwn yn defnyddio'r **Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant Meddyliol** i wella **iechyd meddwl** a **llesiant**.



Mae **llesiant** yn golygu bod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus.



Byddwn yn gwella'r ffordd rydym yn ymateb i broblemau mewn ardaloedd lleol. Ac mewn **lleoliadau sy'n peri pryder**.

Mae **lleoliadau sy'n peri pryder** yn lleoedd sy'n adnabyddus am lawer o hunanladdiadau.




Byddwn yn gwneud cyfreithiau a pholisïau i wella diogelwch ar-lein. Bydd hyn yn helpu i gyfyngu ar weld pobl yn gweld pethau drwg ar y rhyngrwyd.

# Nod 3: Rhoi cymorth i grwpiau agored i niwed mewn cymdeithas



Mae pobl **agored i niwed** yn golygu pobl a allai fod angen cymorth a chefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach.



Rydym am ddarparu cefnogaeth i bobl sydd **fwyaf agored i hunanladdiad a hunan-niweidio**. Ac sydd mewn perygl mwyaf.

**Sut y byddwn ni'n gwneud hyn**



Byddwn yn gwella cefnogaeth mewn mannau lle mae'r bobl fwyaf **agored i niwed**.




**Rydym yn credu mai'r lleoedd lle gallwn wella'r gefnogaeth yw:**

- Gofal Sylfaenol – er enghraifft meddygfeydd
- Carchardai a Sefydliadau Troseddau Ieuenctid
- Gwasanaethau cymunedol – er enghraifft canolfannau gwaith
- Lleoliadau gofal cymdeithasol – er enghraifft cartrefi gofal i blant
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Ysgolion, colegau, prifysgolion a chanolfannau ieuenctid




Byddwn hefyd yn sicrhau bod ein polisïau, ein gweithredoedd a'n gwasanaethau yn dilyn:

- **Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch.**
- **Safonau'r Gymraeg a Cymraeg 2050.**




A bod polisïau, gweithredoedd a gwasanaethau yn parchu ac yn gwerthfawrogi:

- hawliau plant
- a hawliau dynol.

# Nod 4: Gwneud pobl yn ymwybodol o hunanladdiad a hunan-niweidio a sut i helpu pobl



Rydym am helpu pobl a grwpiau i ddeall sut y gallant atal **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**.




Rydym hefyd eisiau gwella sgiliau i nodi pobl sydd mewn perygl. A darparu'r gefnogaeth gywir.

**Sut y byddwn ni'n gwneud hyn**



Darparu hyfforddiant a chefnogaeth. Rhoi'r un hyfforddiant i'r holl wasanaethau sy'n ymateb i bobl sydd mewn perygl.



Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i roi'r holl gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl.

## Nod 5: Bod yn garedig a gofalgar gyda phobl sy’n:

- **hunan-niweidio**
- **profi meddyliau am hunanladdiad**
- **wedi colli rhywun i hunanladdiad**



Rydym eisiau gwella gwasanaethau. Fel eu bod nhw’n garedig pan fydd pobl yn estyn allan am help.



Rydym am i weithwyr proffesiynol, cyflogwyr, teulu a ffrindiau wybod sut i roi a chael cefnogaeth.



Rydym am roi cyngor i sefydliadau fel y gallant wneud y canlynol:

- cefnogi pobl sydd mewn perygl o **hunan-niweidio**
- Cefnogi pobl sydd wedi colli rhywun i **hunanladdiad**.



Mae hyn yn golygu bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir mewn pryd. Ac mae pethau’n cael eu gwneud i atal **hunanladdiad** a **hunan-niweidio**.

**Sut y byddwn ni'n gwneud hyn**



Gwneud yn siŵr bod pawb yn gweithio gyda'i gilydd.



Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n ymateb yn garedig ac yn ofalgar.



Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael eu hyfforddi i roi'r cymorth cywir.




Dod o hyd i ffyrdd o ymateb yn gyflym i bobl sydd angen help.

# Nod 6: Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n ysgrifennu am hunan-niweidio a hunanladdiad yn y cyfryngau ac ar-lein, yn helpu



Weithiau gall adrodd yn y **cyfryngau** greu credoau anghywir am **hunanladdiad**.



Weithiau gall adrodd yn y **cyfryngau** wneud pethau'n waeth.



Gellir defnyddio'r **cyfryngau** hefyd i roi gobaith i bobl. Neu annog pobl i gael help.




Mae'r Samariaid yn darparu Canllawiau Cyfryngau ar gyfer adrodd ar hunanladdiad a hunan-niweidio.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn**





Cytuno ar gynlluniau gyda'r **cyfryngau** i sicrhau eu bod yn helpu ac yn dweud y pethau cywir.

# Sicrhau ein bod ni’n gwneud pethau’n well



Byddwn yn gwirio’r hyn rydym yn ei wneud.




Byddwn yn ysgrifennu adroddiad i ddangos yr hyn yr ydym wedi’i gyflawni.



Byddwn yn adolygu’r cynllun i gynnwys pethau newydd os oes angen.

# Geiriau anodd

### Agored i Niwed

Mae pobl agored i niwed yn golygu pobl a allai fod angen cymorth a chefnogaeth i gadw'n ddiogel ac yn iach.

### Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)

Mae Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd yn niwrowahanol. Mae'n golygu bod pobl niwroamrywiol yn meddwl yn wahanol i'r rhan fwyaf o bobl.

### Awtistiaeth

Awtistiaeth yw'r enw byr sy'n cael ei roi ar amrywiaeth o gyflyrau o'r enw Anhwylder y Sbectrwm Awtistig. Efallai y bydd pobl awtistig yn profi anawsterau gyda phethau fel cyfathrebu, bod gyda phobl eraill, neu sut maen nhw'n meddwl am weithgareddau a diddordebau.

### Blaenoriaethau

Blaenoriaethau yw'r pethau pwysicaf.

### Bwlio

Bwlio yw pan fydd person neu grŵp o bobl yn trin rhywun arall mewn ffordd wael.

### Cam-drin domestig

Gall cam-drin domestig ddigwydd i unrhyw un. Mae'n cynnwys unrhyw ymddygiad sy'n achosi niwed i rywun sy'n cael ei gyflawni gan bartner, cyn-bartner, ffrind neu aelod o'r teulu.

### Cam-drin

Cam-drin yw pan fydd rhywun yn eich brifo neu'n eich trin yn wael.

### Camddefnyddio sylweddau

Mae camddefnyddio sylweddau yn golygu cymryd cyffuriau neu yfed gormod o alcohol.

### Ceisiwr lloches

Person sy'n gofyn am gael ei ystyried yn ffoadur yn y wlad newydd maen  wedi mynd. Mae'r wlad newydd yn ymchwilio i'w sefyllfa i wneud penderfyniad.

### Esgeulustod

Esgeulustod yw pan nad yw rhywun yn gofalu amdanoch chi'n iawn.

### Ffoadur

Person sydd wedi gorfod gadael eu gwlad am eu bod mewn perygl yno. Er enghraifft, efallai bod yn ryfel. Neu efallai eu bod nhw'n cael eu bygwth.

### Hunan-niwed

Hunan-niweidio yw pan fydd rhywun yn brifo ei hun ar bwrpas.

### Hunanladdiad

Hunanladdiad yw beth rydym yn ei ddweud pan fydd person yn dod â'i fywyd ei hun i ben.

### Hygyrch

Mae hygyrch yn golygu bod rhywbeth yn hawdd i bobl ei ddeall a'i ddefnyddio. Er enghraifft, gwneud gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall.

### Iechyd meddwl

Mae gan bawb iechyd meddwl. Iechyd meddwl yw sut mae rhywun yn teimlo yn ei feddwl. Mae'n ymwneud â theimladau, meddyliau a llesiant.

### LHDTC+

Mae LHDTC+ yn golygu grwpiau Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Traws, Cwiar a grwpiau eraill. Mae'n ymwneud â rhywioldeb a phwy mae pobl yn cael eu denu atynt.

### Lleoliadau sy'n peri pryder

Mae lleoliadau sy'n peri pryder yn lleoedd sy'n adnabyddus am lawer o hunanladdiadau.

### Llesiant

Mae llesiant yn golygu bod yn gyfforddus, yn iach neu'n hapus.

### Niwrowahanol

Mae niwrowahanol yn golygu pobl ag ymennydd sy'n gweithio mewn ffordd wahanol i eraill. Fel Awtistiaeth ac ADHD.

### Profiadau byw

Mae profiadau byw yn golygu pobl sydd wedi bod drwy hunanladdiad neu hunan-niweidio. Neu maen nhw'n adnabod pobl eraill sydd wedi.

### Sipsiwn, Roma, a Theithwyr

Mae pobl Sipsiwn, Roma, a Theithwyr yn grwpiau o bobl sydd weithiau'n teithio o le i le.

### Tlodi

Tlodi yw pan nad oes gan rywun y pethau sydd eu hangen i fyw'n dda. Mae hyn yn golygu nad oes ganddynt bethau fel bwyd, dillad, gofal iechyd ac addysg.

### Trais

Mae trais rhywiol yn fath o ymosodiad rhywiol.

### Y Cyfryngau

Mae'r cyfryngau yn golygu gwahanol offer sy'n cael eu defnyddio i roi gwybodaeth i bobl. Er enghraifft, papur newydd, radio, rhyngrwyd.

### Ymosodiad rhywiol neu drais rhywiol

Gall ymosodiad rhywiol neu drais rhywiol ddigwydd i unrhyw un. Mae'n weithred rhyw sy'n cael ei wneud i rywun pan nad ydyn nhw'n cytuno iddi. Mae yn erbyn y gyfraith.